OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1039 (Cy.111)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *am 10.20 ar 10 Ebrill 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *am 12.00 ar 10 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â Pholisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enw, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru, a deuant i rym am 12.00 ar 10 Ebrill 2002.

**Diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000(**3**) mewn perthynas â Chymru yn unol â darpariaethu canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 3, Rhan I—

(a) ym mharagraff 9, yn lle'r geiriau "and 2002/153/EC (OJ No. L50, 21.2.2002, p.98);" rhoddir y geiriau—

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2000/1673; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/2266, O.S. 2000/2524, O.S. 2000/2900 ac, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2002/430 (Cy.52).

", 2002/153/EC (OJ No. L50, 21.2.2002, p.98) and 2002/242/EC (OJ No. L82, 26.3.2002, p.18);"; a

(b) ym mharagraff 16 yn lle'r geiriau "and 2002/153/EC (OJ No. L50, 21.2.2002, p.98)." rhoddir y geiriau—

", 2002/153/EC (OJ No. L50, 21.2.2002, p.98) and 2002/242/EC (OJ No. L82, 26.3.2002, p.18).".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

10.20 am ar 10 Ebrill 2002

(**4**) 1998.p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym am hanner dydd ar 10 Ebrill 2002, yn diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000 (O.S. 2000/1673, fel y'u diwygiwyd) ac yn darparu mewn perthynas â Chymru fod y canlynol yn effeithiol—

Erthygl 1 o Benderfyniad y Comisiwn 2002/242/EC (OJ Rhif L82, 26.3.2002, t.18), sy'n diwygio Penderfyniad 2001/327/EC (OJ Rhif L115, 25.4.2001, t.12), sy'n ymwneud â chyfyngu ar symud anifeiliaid o rywogaethau a allai ddioddef o glwy'r traed a'r genau, am y nawfed tro.

Ni pharatowyd Arfarniad Rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn.